effeithiol ac ystyried awgrymiadau i wella'r ddarpariaeth. Er mai ar ddydd Mercher yn unig y mae swyddog trwyddedu ar gael yn y swyddfa , mae modd cysylltu â swyddogion drwy'r Ganolfan gyswllt. O ran ymateb i gwynion, pwysleisiwyd bod rhaid derbyn tystiolaeth os am weithredu yn erbyn tor cyfraith.

Cydnabuwyd y buasai codi'r ffioedd yn raddol wedi bod yn fuddiant yn y gorffennol, ond nodwyd bod y ffioedd arfaethedig yn parhau ar lefel isel o gymharu ag awdurdodau lleol eraill.

Cyfeiriwyd hefyd at y canran bychan iawn o unigolion / cwmnïau oedd wedi ymateb i'r ymgynghoriad gan dynnu sylw nad oedd unrhyw gwyn wedi dod o Feirionydd. Cwestiynwyd os oedd hyn oherwydd toriadau i wasanaeth cludiant cyhoeddus ym Meirionnydd. Priodol yw nodi ymateb Pennaeth yr Adran Rheoleiddio - cwmnïau cludiant sydd yn gyfrifol am y newidiadau i'r elfennau masnachol ac nad oes gan y Cyngor unrhyw reolaeth dros hyn.

Derbyniwyd y cais am adnoddau i gynnal gwasanaeth mwy effeithiol, ond i weithredu hyn buasai rhaid cynyddu'r costau

**PENDERFYNWYD CODI HOLL FFIOEDD TRWYDDEDU TACSIS 25%, YN UNOL Â'R HYN A GYTUNWYD GAN Y PWYLLGOR YM MIS MEHEFIN 2013, AC A YMGYNGHORWYD ARNO ER MWYN SYMUD TUAG AT ADENNILL Y COSTAU SYDD YNGHLWM Â'R GWASANAETH YN LLAWN YN 2014/15.**

Diolchwyd i bawb am eu cyfraniad.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30a.m. a daeth i ben am 11.15am